**Grŵp Ymchwil Craffu - Agenda Gwledig**
**Nodiadau cyfarfod anffurfiol – 20 Chwefror 2013**

Presennol: Cynghorwyr Gweno Glyn, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.
Swyddogion: Gareth James ac Ann Roberts.
Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards a June Marshall.

Pwrpas y Cyfarfod: I drafod sgôp y briff ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar y 7fed o Fawrth.

1. Penderfynwyd peidio diffinio 'gwledig' gan fod Gwynedd i gyd yn wledig heblaw am Gaernarfon a Bangor.
2. Nodwyd y pwysigrwydd i beidio sgopio rhy eang a chadw at elfen benodol.

Trafodwyd yr opsiynau

1. Tlodi Tanwydd – nodwyd bod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi edrych ar hwn ar 13 Rhagfyr.

2. Mynediad at Wybodaeth e.e. Buddiannau – nodwyd bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi penderfynu edrych ar y maes yma yn ei gyfarfod diwethaf.

3. Cynhwysiad Cymdeithasol - Nodwyd bod elfennau y gall y grŵp canolbwyntio arnynt ond bod angen sicrhau briff tynn. Trafodwyd a nodwyd y gall y grŵp ystyried

   - dysgu o Cymunedau'n Gyntaf ond ni ddylid rhoi gormod o bwyslais ar beth wnaed o dan Cymunedau'n Gyntaf. Gellir ystyried ffyrdd arloesol o symud ymlaen o Cymunedau'n Gyntaf ac edrych os ydi'r mentrau arloesol yn cael cefnogaeth i ehangu. Edrych os oes ffyrdd gwahanol o gynnig y gwasanaethau - 3ydd sector, preifat, ayyb.

   - trafnidiaeth fel 'o ddrws i ddrws' fel sydd yn ardal Llŷn ac ehangu ar draws Gwynedd. Gall bydd arbedion yn dod o hyn hefyd. Edrych ar opsiynau eraill o ddarparu trafnidiaeth yn ardaloedd ble nad oes gwasanaeth bws agos. Nodwyd bod twristiaeth yn dibynnu ar wasanaethau bysus. Adroddwyd bod sôn wedi bod am hybs o fewn y prosiect Cludiant Cymunedol.

   - dod a gwasanaethau Optegydd ac eraill yn nes at y bobl. Nodwyd bod rhaid bod yn ofalus wrth ddewis briff gan fod y Bwrdd Iechyd yn crebachu ar eu gwasanaethau ac unwaith byddant wedi tynnu gwasanaeth allan o ardal bydd y galw wedyn ar Gyngor Gwynedd i ddarparu'r gwasanaeth.

4. Unigedd Cymdeithasol – nodwyd bod llawer yn digwydd yn y maes yma yn Llŷn yn barod.

5. ‘Y Dafarn yw’r Galon’ - nodwyd bod cyfarfod 19 Chwefror ym Mryncir i annog trwyddedai gwledig i drafod cynllun “Y Dafarn yw’r Galon” a reolir gan Cadwyn Clwyd ar ran Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth ariannol gan Gronfa Cefn Gwlad y Tywysog.

6. Grymuso Cymunedau - Nodwyd bod prosiect hwn yn y Cynllun Strategol.

7. Broadband - Nodwyd bod rhaglen waith yn bodoli ar draws Gwynedd.

Cytunwyd:

Bod y drafodaeth wedi bod yn sail i gychwyn ar y gwaith o edrych ar wasanaethau’r Cyngor a’r opsiynau, a ffyrdd eraill o’u darparu.

Defnyddio gwybodaeth o’r Cyfrifiad diweddaraf fel sail i’r ymchwiliad.

I drafod gydag Arweinydd y Cyngor, Mantell Gwynedd ac eraill.

Cynnal cyfarfodydd y Grŵp Ymchwil Craffu yn ardal Penrhyndeudraeth.

20/2/2013.